# Cymru Wrth-hiliol

## *Arolwg sylfaenol o'r sector tai cymdeithasol*

Cyhoeddwyd: Hydref 2023
Tai Pawb
https://www.taipawb.org/cy/
Elusen: 1110078
Cwmni: 05282554

# Cefndir

Ym mis Mehefin 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP), sy'n nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i wneud Cymru'n genedl Wrth-hiliol. Gweledigaeth y cynllun yw gwneud newidiadau ystyrlon a mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth.

Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o ymrwymiadau mewn amrywiaeth eang o feysydd polisi, gan gynnwys tai. Mae'r camau sy'n berthnasol i'r sector tai yn cynnwys:

- Cynyddu amrywiaeth staff a byrddau rheoli
- Hyfforddiant gwrth-hiliaeth
- Cynhyrchu cynlluniau cyflawni gwrth-hiliaeth
- Gwelliannau o ran casglu, dadansoddi, defnyddio a chyhoeddi data
- Gwelliannau yn y ffordd yr adroddir ac yr eir i'r afael â hiliaeth, gan gynnwys troseddau casineb
- Gwelliannau mewn cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ethnig leiafrifol
- Diwallu anghenion gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth
- Sicrhau bod gwrth-hiliaeth yn rhan anhepgor o weddnewid gwasanaethau digartrefedd
- Camau eraill

Mae rhagor o wybodaeth am gamau sy'n benodol i'r sector tai i'w cael ym Mhecyn Cymorth Gwrth-hiliaeth Tai Pawb. <https://www.taipawb.org/anti-racism/>

Roedd yr arolwg yn ymdrech i gasglu data gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, awdurdodau lleol, a sefydliadau cymorth tai'r trydydd sector i gael golwg sylfaenol ar feysydd dethol o fewn y Cynllun Gweithredu lle'r oedd data'n brin, sef:

- Amrywiaeth ymhlith staff
- I ba raddau y mae sefydliadau wedi datblygu cynlluniau cyflawni gwrth-hiliaeth ac a yw'r rhain wedi'u cyhoeddi
- I ba raddau y mae'r staff a'r bwrdd wedi cael hyfforddiant gwrth-hiliaeth
- Gallu darparwyr tai cymdeithasol i ddadansoddi data amodau tai'n ôl nodweddion aelwydydd (gan gynnwys hil ac ethnigrwydd)

Yn ychwanegol at yr uchod roedd yr arolwg hefyd yn edrych ar y rhwystrau a brofwyd gan y sector tai wrth roi'r Cynllun Gweithredu ar waith a'u barn ar ba gymorth arall sydd ei angen.

# Methodoleg

Y prif gwestiwn ymchwil yr oedd yr arolwg am gael ateb iddo oedd:

*Beth yw man cychwyn gwaelodlin y sector tai yng Nghymru, o ran ymrwymiadau'r Cynllun Gweithredu yn achos amrywiaeth, cynlluniau gwrth-hiliaeth, hyfforddiant a gallu i ddadansoddi data amodau tai.*

Cafodd yr arolwg ei weinyddu gan Tai Pawb rhwng Mai 2023 a Gorffennaf 2023 drwy Survey Monkey. Penderfynwyd mai arolwg oedd y dull mwyaf priodol o gasglu data oherwydd natur feintiol y cwestiynau a rhwyddineb dadansoddi.

Anfonwyd yr arolwg drwy e-bost at gyswllt allweddol ym mhob un o'r 36 cymdeithas dai, y 22 awdurdod lleol a'r 47 sefydliad cymorth tai yn y trydydd sector yng Nghymru. Dilynwyd hyn gan ddau e-bost atgoffa. Cafwyd 41 o ymatebion gan drawstoriad o bob un o'r tri math o sefydliad, ac roedd hyn yn gyfradd ymateb o 43%.

Cwblhawyd yr arolwg gan un cynrychiolydd o bob sefydliad a oedd yn rhoi'r holl ymatebion yn seiliedig ar y data sefydliadol oedd ar gael. Er mwyn helpu cynrychiolydd sefydliadol i gasglu data yn eu sefydliadau, roedd y gwahoddiad i gymryd rhan yn cynnwys: dolen at dudalen arolwg Survey Monkey yn ogystal â fersiwn Word o'r arolwg (i'w ddefnyddio'n fewnol i gasglu data gan gydweithwyr mewn adrannau eraill os byddai angen, cyn cwblhau'r arolwg ar-lein).

Cafodd data a gyflwynwyd gan sefydliadau ei lawrlwytho mewn fformat Excel, ac fe'i gwelwyd a'i dadansoddwyd gan Reolwr Gwrth-hiliaeth Tai Pawb gyda sicrwydd ansawdd gan y Prif Weithredwr. Bydd y data'n cael eu cadw am ddwy flynedd, ac ar ôl hynny bydd yn cael eu dinistrio'n unol â pholisi GDPR Tai Pawb. Cafodd dadansoddiad traws dabiau o ddata'r arolwg ei gynnal, gyda chymhariaeth â data Cyfrifiad 2021 mewn rhai cwestiynau.

Er bod canlyniadau'r arolwg yn dangos amrywiaeth/materion eraill yn y sector, maent yn rhoi cipolwg ac ni ddylid eu cyffredinoli ar gyfer y sector cyfan sy'n cynnwys mwy na 95 o sefydliadau.

# Prif Ganfyddiadau

- **Roedd amrywiaeth ethnig staff y sector tai yn isel: roedd 6.4% o'r staff o gefndiroedd ethnig leiafrifol o'i gymharu â 9.6% o boblogaeth Cymru (Cyfrifiad 2021). Amrywiaeth ethnig y staff rheoli oedd yr isaf (0.8%), ac wedyn uwch reolwyr (1.2%). Cynrychiolaeth ymhlith staff nad oeddent yn rheolwyr oedd yr uchaf (5.9%). Roedd amrywiaeth ethnig y byrddau yn 2022 yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth ar y cyfan, gyda 7% o aelodau byrddau o Gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol.**

- **Erbyn Gorffennaf 2023 roedd 39% o'r bobl sy'n gweithio yn y sector tai wedi cael hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn y ddwy flynedd flaenorol.**

- **Dywedodd 57% o sefydliadau â stoc dai bod modd dadansoddi data cyflwr eu stoc yn ôl nodweddion gwarchodedig.**

- **Roedd gan bron i 80% o sefydliadau ryw fath o gynllun gwrth-hiliaeth, naill ai un unigol neu fel rhan o'u cynlluniau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Fodd bynnag, 30% o sefydliadau oedd yn eu cyhoeddi ar eu gwefannau.**

- **Y prif heriau a nodwyd gan sefydliadau o ran gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol oedd:**
    - **Heriau adnoddau a chapasiti**
    - **Ymgysylltiad â staff**
    - **Integreiddio â strategaeth ehangach**
    - **Deialog agored a'r hyder i'w weithredu**

- **Meysydd allweddol lle'r oedd ymatebwyr yn teimlo bod angen cymorth arnynt oedd:**
    - **Yr angen am gyfleoedd dysgu a hyfforddi hygyrch a pharhaus**
    - **Arweiniad ar weithredu**
    - **Help i ymgysylltu â grwpiau cymunedol**
    - **Alinio pob maes busnes ag ymrwymiadau'r Cynllun Gweithredu**

# Amrywiaeth staff

Gofynnwyd i staff nodi canran eu staff neu aelodau'r bwrdd/pwyllgor a oedd o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Gan fod yr holiadur yn cael ei weinyddu, cawsom ddata llawn ar amrywiaeth y byrddau gan y rheolydd tai ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig am 2022: daw'r data staff o'n holiadur, a daw'r data byrddau isod o ddata rheoleiddio tai.

**Dadansoddiad o staff/byrddau yn ôl ethnigrwydd**




**Roedd amrywiaeth ethnig holl staff y sector tai yn gynrychioliadol: roedd 6.4% o staff o gefndiroedd ethnig leiafrifol o'i gymharu â 6.3% o boblogaeth Cymru (Cyfrifiad 2021). Fodd bynnag, roedd amrywiaeth ethnig y staff rheoli yn isel (0.8%), ac yna uwch reolwyr (1.2%). Cynrychiolaeth ymhlith staff nad ydynt yn rheolwyr oedd yr uchaf (5.9%). Ar y cyfan roedd amrywiaeth ethnig byrddau yn 2022 yn cyfateb i amrywiaeth y boblogaeth, gyda 7% o aelodau byrddau o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol.**

Mae'r canlyniadau uchod yn seiliedig ar ddata gan sefydliadau lle'r oedd ffigurau'n hysbys gyda nifer sylweddol o sefydliadau'n dewis Ddim yn gwybod pan ofynnwyd am gyfansoddiad ethnig eu gweithlu neu eu byrddau/pwyllgorau. Er enghraifft, nid oedd gan 12% o sefydliadau ddata ar eu staff ac nid oedd gan 15% ddata ar uwch reolwyr.


O'r **41** o sefydliadau a ymatebodd dywedodd:

- **5** nad oedd ganddynt staff Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol
- **29** nad oedd ganddynt uwch reolwyr Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol
- **23** nad oedd ganddynt reolwyr canol Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol

# Hyfforddiant gwrth-hiliaeth

Gofynnwyd i sefydliadau am faint o hyfforddiant gwrth-hiliaeth a ddarparwyd i staff, byrddau neu bwyllgorau. Mae'r Cynllun Gweithredu'n gofyn i sefydliadau hyfforddi eu holl uwch reolwyr a byrddau erbyn diwedd 2023 fel man cychwyn.

**Canran y bobl a oedd wedi cael hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn y ddwy flynedd diwethaf**





***Erbyn Gorffennaf 2023, roedd 39% o gyflogeion yn y sefydliadau a ymatebodd wedi cael hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Roedd tua 59% o uwch reolwyr a 39% o aelodau byrddau/pwyllgorau wedi cael yr hyfforddiant hwn.***

Mae canfyddiadau uchod wedi'u seilio ar sefydliadau a oedd yn gallu cyflenwi data i ni; yn achos nifer sylweddol o sefydliadau nid oedd ganddynt, neu nid oeddent yn gallu cyflenwi ffigurau inni ar faint o hyfforddiant gwrth-hiliaeth a ddarparwyd (nid oedd gan bron i hanner y sefydliadau ddata hyfforddi ar gyfer staff ac nid oedd gan dros ddau draean ffigurau ar gyfer byrddau/pwyllgorau.)

# Data amodau tai

Gofynnwyd i'r sefydliadau hynny â stoc dai a oedd modd dadansoddi eu data ar amodau tai yn ôl nodweddion aelwydydd.

**A ellir dadansoddi eich data ar y stoc dai yn ôl nodweddion gwarchodedig?**





***Dywedodd dros hanner (57%) yr ymatebwyr oedd â stoc dai y gellid dadansoddi eu data amodau tai yn ôl nodweddion gwarchodedig.***

# Cynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth

Mae'r Cynllun Gweithredu yn gofyn i sefydliadau ddatblygu cynlluniau cyflawni gwrth-hiliaeth.

Gofynnwyd a oedd gan sefydliadau gynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth, gan nodi y gallai hyn olygu eu cynllun /ymrwymiadau Gweithredu nid Geiriau a ddatblygwyd o dan adduned Tai Pawb, cynlluniau unigol neu ran o gynlluniau cydraddoldeb ehangach.

**Canran o ymatebwyr oedd â naill ai cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth unigol, cynllun ehangach neu ddim cynllun o gwbl**




**Canran o gynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth a gyhoeddwyd**

***Roedd gan 80% o sefydliadau ryw fath o gynllun gwrth-hiliaeth, naill ai un unigol neu fel rhan o'u cynlluniau EDI. Dim ond traean o sefydliadau, fodd bynnag, oedd wedi cyhoeddi'r rhain ar eu gwefannau.***

Gall sefydliadau sydd heb gynllun gysylltu â rheolwr gwrth-hiliaeth Tai Pawb Simon, a fydd yn hapus i'w helpu i ddatblygu eu cynllun: simon@taipawb.org. Mae enghreifftiau o gynlluniau gweithredu ac ymrwymiadau a ddatblygwyd i'w gweld ar wefan Tai Pawb yma.

Os oes sefydliadau wedi datblygu Cynlluniau Gweithredu nid Geiriau, dylent gymharu eu gweithredoedd yn erbyn yr ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu – mae fersiwn dalfyredig ohonynt ar gael yma.

# Heriau

Yn y cwestiwn penagored hwn, gofynnwyd i sefydliadau beth oedd yn heriau a brofwyd wrth weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**Roedd y prif heriau a nodwyd gan sefydliadau wrth geisio gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys:**

- **Heriau adnoddau a chapasiti**
- **Ymgysylltiad â staff**
- **Integreiddio â strategaeth ehangach**
- **Deialog agored a'r hyder i'w weithredu**

Isod rydym yn dyfynnu gair am air yr ymatebion a gafwyd:

- *"Byddai cael data ar faterion tai a phoblogaethau hil yn fuddiol"*
- *"Gweithio drwy gyfres o welliannau yn ymwneud ag ED&I felly mae'n her o safbwynt adnoddau" Poblogaeth Gogledd Cymru, gweithio ar draws y Gogledd ac ystod o gymunedau*
- *"Mae ymgysylltiad â staff wedi bod yn isel er ei fod yn galonogol cael bod yn rhan o weithgor"*
- *"Mae'r camau gwrth-hiliaeth yn rhan o'n cynllun EDI ehangach sy'n cael ei ddiweddaru i gyd-fynd â'n strategaeth newydd. Ar hyn o bryd y rhwystrau a welir yw costau'n bennaf ond hefyd yr ymrwymiad amser yn unol â blaenoriaethau a gofynion a disgwyliadau eraill gan randdeiliaid allanol".*
- *"Mae'r gallu i fonitro hyn yn gyfyngedig"*
- *"Mae angen gwirioneddol am fwy o arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llety i Sipsiwn a Theithwyr"*
- *"Mae costau'n cynyddu ac mae pwysau mawr ar gyllidebau wedi cyfyngu ar y gallu i ddarparu hyfforddiant Gwrth-hiliaeth i'r holl staff"*
- *"Mae maint y sefydliad a'r cymunedau lle'r ydym yn gweithio'n aml yn golygu bod hwn yn faes gwaith lle mae ein gallu i ddatblygu mentrau wedi'i gyfyngu"*
- *"Ymrwymiad sefydliadol. Mae rhai ardaloedd yn fwy brwdfrydig nag eraill a dyna pam ei bod mor bwysig darbwyllo uwch reolwyr. Mae newidiadau ar lefel uwch wedi golygu bod arweinyddion interim newydd wedi gorfod rhoi blaenoriaeth i feysydd eraill"*
- *"Gwrthwynebiad i newid a safbwyntiau gwahanol. Diffyg hyder wrth drafod hil ac effeithiau hiliaeth ar grwpiau ethnig leiafrifol penodol"*

# Y cymorth sydd ei angen

Gofynnwyd i sefydliadau ym mha feysydd yr oedd angen cymorth arnynt gan Tai Pawb neu rywun arall.

**Y prif feysydd lle'r oedd ymatebwyr yn teimlo bod angen cymorth arnynt oedd:**

- **Yr angen am gyfleoedd dysgu a hyfforddi hygyrch a pharhaus**
- **Hyfforddiant**
- **Arweiniad ar weithredu**
- **Help i ymgysylltu â grwpiau cymunedol**
- **Alinio pob maes busnes ag ymrwymiadau'r Cynllun Gweithredu**

Isod rydym yn dyfynnu gair am air yr ymatebion a gafwyd:

- *"Darparu e-ddysgu cost-effeithiol, hawdd ei ddeall ar wrth-hiliaeth sy'n addas i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd*
- *"Byddai gennym ddiddordeb mewn cael cyngor ac arweiniad ar arferion gorau a'r camau ymarferol y gallwn eu cymryd i'w ymgorffori'n llawn yn y sefydliad"*
- *"Parhau i gael diweddariadau/cyfarfodydd rheolaidd â Simon Lu gan eu bod yn fuddiol i rannu dysgu gan eraill"*
- *"Hyfforddiant penodol ar Wrth-hiliaeth o fewn y sector tai neu weminarau i wneud yn siŵr ein bod yn gyfoes"*
- *"Sesiynau/deunyddiau ar-lein am ddim gan Tai Pawb. Cysylltu â grwpiau cymunedol fel y nodwyd eisoes"*
- *"Gallai Tai Pawb ein helpu i ddeall ein cyfrifoldebau o dan Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac mi allwn wedyn eu cysylltu â'n hymrwymiadau Gweithredu nid Geiriau. Er enghraifft, newidiadau i reoliadau a hyfforddiant o safon uchel"*
- *"Byddai help gyda gofynion hyfforddi'r dyfodol yn ein helpu i ymgorffori gwrth-hiliaeth neu gyflwyniadau mewn sesiynau briffio ar gyfer staff"*
- *"Rhwydwaith o bobl i siarad am eu profiadau byw"*

## Rhagor o wybodaeth a chyngor

Mae gan Tai Pawb lawer o adnoddau ar eu gwefan, gan gynnwys:

- Pecyn cymorth gwrth-hiliaeth
- Hyfforddiant gwrth-hiliaeth
- Adnoddau Gweithredu nid Geiriau
- Adroddiad Sylfaenol Gweithredu nid Geiriau (gan gynnwys arferion da)
- Gweithredu nid Geiriau: Dwy Flynedd yn Ddiweddarach (gan gynnwys arferion da)

Angen rhagor o gyngor? Mae Tai Pawb wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu'r sector i ymgorffori gwrth-hiliaeth yn eu sefydliadau. Cysylltwch â Simon Lu, Rheolwr Gwrth-hiliaeth Tai Pawb simon@taipawb.org

Mae'r prosiect yn cynnig:

- Cymorth i 121 o sefydliadau i ymwreiddio gwrth-hiliaeth
- Cyfarfod chwarterol ag arweinydd y Cynllun Gweithredu / Gweithredu nid Geiriau ar gyfer uwch arweinyddion tai sy'n gyfrifol am wrth-hiliaeth
- Cylchlythyr Gwrth-hiliaeth
- Cymorth a chyhoeddiadau eraill